

Appendix B

Planning Permission C09A/0046/22/MW

DRAFT



DYBLYGEB/DUPLICATE

VTO:
DR.G.P.JONES
56, HYFRYDLE ROAD
TALYSARN
CAERNARFON
GWYNEDD
LL54 6HF

Ymgeisydd/Applicant:
D.AND. E. JONES
GLASLYN
NANTLLE
CAERNARFON
GWYNEDD
LL55 1AE

(DEC/LAC)

Cais Rhif:

C09A/0046/22/MW

Cofrestrwyd: 26/01/2009

Application Number:

Registered:

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990
TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**GORCHYMYN (DATBLYGU YN GYFFREDINOL A GANIATEIR) CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1995
THE TOWN AND COUNTRY PLANNING (GENERAL PERMITTED DEVELOPMENT) ORDER 1995**

**GORCHYMYN (TREFNIADAETH DATBLYGU CYFFREDINOL) CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1995
THE TOWN AND COUNTRY PLANNING (GENERAL DEVELOPMENT PROCEDURE) ORDER 1995**

Mae'r Cyngor a enwir uchod, yr Awdurdod Cynllunio Lleol, trwy hyn yn **CANIATAU** y datblygiad a geisiwyd gennych, sef:

*The above named Council being the Local Planning Authority **HEREBY PERMIT** the development proposed by you, namely:*

Bwriad/Proposal	ESTYNIAD ARFAETHEDIG I'R ARDAL CLODDIO GWASTRAFF MWYNAU A RHESYMOL I'R DATBLYGIAD PRESENNOL I GYNNWYS CYNLLUN DIWYGIEDIG O WEITHIO AC ADFER I'R HYN A GANIATAWYD EISIOES DAN GANIATAD CYNLLUNIO C01A/0646/22/MW AR GYFER SYMUD DEUNYDD O DYDDODION GWEITHIO MWYNAU / PROPOSED EXTENSION OF MINERAL WASTE EXTRACTION AREA AND RATIONALISATION OF EXISTING DEVELOPMENT TO INCLUDE A REVISED SCHEME OF WORKING AND RESTORATION TO THAT PREVIOUSLY APPROVED UNDER PLANNING PERMISSION C01A/0646/22/MW FOR THE REMOVAL OF MATERIAL FROM A MINERAL WORKING DEPOSIT
Lleoliad/Location	CHWAREL TY MAWR GORLLEWIN / TY MAWR WEST SLATE QUARRY, LLANLLYFNI, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 6BD

yn unol â'r cais a'r cynlluniau a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 22/04/2009 yn ddarostyngedig i'r amod(au) a nodir trosodd:

in accordance with the application and plans submitted to the Council on 22/04/2009 subject to the condition(s) specified over :

RHEOLWR CYNLLUNIO ARDAL/AREA PLANNING MANAGER
ar ran Pennaeth Adran Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)
on behalf of the Head of Regulatory Department (Planning, Transportation and Public Protection)

Dyddiad/Date 22/04/2009

**MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL.
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES**

Cais Rhif:

C09A/0046/22/MW

Tudalen/Page: 1

Application Number:

**Pwysig: Cymerwch sylw**

Gall peldio cydymffurfio ag amodau neu newidiadau heb ganiatâd i'r cynlluniau a ganiatawyd wneud y ganiatâd yn annilys. Os nad ydych yn siŵr cysylltwch â'r Awdurdod Cynllunio lleol am gyngor.

Important: Take note

Non compliance with conditions or unauthorised variations to the approved plans could invalidate the consent hereby approved. If in doubt please contact the Local Planning Authority for advice.

Amodau/Conditions:**1. Gwnith a Ganiateir / Permitted Operations**

Rhaid i'r gwaith cloddio gwastraff mwynau a gweithgareddau ategol ddod i ben erbyn 31/12/2021. Rhaid clirio erbyn y dyddiad hwnnw pob offer neu beiriannau, adeiladau, strwythurau ac adeiladwaith perthynol i'r safle neu a godwyd o ganlyniad i'r caniatâd hwn. Rhaid cwblhau gwaith adfer y safle erbyn 31/12/2023.

The extraction of mineral waste and ancillary operations shall cease by 31/12/2021. All plant, machinery, buildings structures and erections related to or sited as a consequence of this planning permission shall be removed by that date. Restoration of the site shall be completed by 31/12/2023.

2. Oni bai fod amod cynllunio yn gofyn am hynny, neu fod cytundeb ysgrifenedig gyda'r awdurdod cynllunio mwynau, rhaid symud gwastraff llechi, creu ffurf tir adferol/proffiliau terfynol, a darpariaeth ardaloedd cadwraeth archeolegol, ecolegol a thirwedd gael ei wneud yn hollol unol â'r datganiad ysgrifenedig, siart redeg gloddio a'r cynlluniau rifwyd; TMW1, TMW2, TMW3, TMW4, TMW5, TMW6, TMW7, TMW8, TMW9, TMW10, TMW11, TMW12, TMW13, TMW14, TMW15, TMW16, TMW17, TMW18 & trawtoriadau rifwyd; LS1, LS2, LS3, LS4, TS1, TS2, TS3, TS4, TS5 a gyflwynwyd gyda'r cais ac unrhyw fanylion eraill a gymeradwywyd wedi hynny mewn ysgrifed gan yr awdurdod cynllunio mwynau.

Unless otherwise required by planning condition or agreed in writing by the mineral planning authority the removal of slate waste, creation of restoration landform/final profiles, and provision of archaeological, ecological & landscape conservation zones shall be carried out only in accordance with the written statement, extraction flow chart and plans numbered; TMW1, TMW2, TMW3, TMW4, TMW5, TMW6, TMW7, TMW8, TMW9, TMW10, TMW11, TMW12, TMW13, TMW14, TMW15, TMW16, TMW17, TMW18 & cross sections numbered; LS1, LS2, LS3, LS4, TS1, TS2, TS3, TS4, TS5 submitted with the application and such other details as may subsequently be approved in writing by the mineral planning authority.

3. Rhaid cyfyngu defnydd oill offer a pheiriannau ar gyfer didoli a malurio gwastraff llechi o fewn yr ardal y caniatâd blaenorol C01A/0646/22/MW, sydd wedi'i ymlyu'n felyn ar gynlluniau'r cais.

The operation of all plant and machinery for the screening and crushing of slate waste shall be restricted to the area of the previous grant of permission C01A/0646/22/MW, edged in yellow on the application plans.

4. Dim ond gwastraff llechi a gwastraff mwynau eraill gaiff eu clirio oddi ar y safle ac ni chaniateir clirio unrhyw ddefnydd o islaw lefel wreiddiol y tir dan y dyddodion gweithio mwynau.

**MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL.
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES**



Only slate and other mineral waste shall be removed from the site and no material shall be removed from below the original ground level of the land beneath the mineral-working deposit.

5. Rhaid cadw'r safle'n dwt wrth fodd yr awdurdod cynllunio mwynau am gyfnod y caniatâd hwn. Ni chaniateir dod â phridd, isbridd na deunyddiau gwastraff o unrhyw fath i'r safle na chael gwared ag ef yno. Ni chaniateir dod ag offer na pheiriannau, cerbydau, cyfarpar na deunyddiau, nad oes eu hangen yn uniongyrchol i bwrpas y gwaith a wneir dan y caniatâd hwn, ar y safle na'u storio yno.

The site shall be maintained in a tidy condition to the satisfaction of the mineral planning authority for the duration of this permission. No soils, sub-soils or waste materials of any description shall be brought into or disposed of within the site. No plant, machinery, vehicles, equipment or materials not directly required for the purposes of operations undertaken under this planning permission shall be brought into or stored on the site.

6. Rhaid defnyddio swyddfa'r safle, y ffordd gludo, bont bwysu a thir gweithredol chysylltiol sydd wedi'i umlinellu mewn coch ar y cynllun sydd ynghlwm (atodiad 1) yn gyfan gwbl i bwrpas y datblygiad a ganiateir a rhaid eu cadw mewn cyflwr tachus wrth fodd yr awdurdod cynllunio mwynau am gyfnod y caniatâd hwn.

The site office, haul road, weighbridge and ancillary operational land edged red on the attached plan (appendix 1), shall be used exclusively for the purposes of the development hereby approved and shall be maintained in a tidy condition to the satisfaction of the mineral planning authority for the duration of this permission.

7. Cyn dechrau ar y datblygiad a ganiateir yma rhaid nodi ffin y safle ac ardaloedd cloddio mwynau wrth fodd yr awdurdod cynllunio mwynau ac mewn modd a fydd yn parhau am gyfnod y caniatâd cynllunio.

Before the development hereby permitted is commenced the boundary of the site & mineral extraction zones shall be marked out to the satisfaction of the mineral planning authority in a manner sufficient to last for the duration of the planning permission.

8. Defnyddir y peiriannau ac offer ar y safle ar gyfer prosesu gwastraff mwynol o ardal y caniatâd hwn ac ni chaniateir eu defnyddio i brosesu deunydd o unrhyw ffynhonnell arall.

Plant and machinery employed on the site shall be used only for the processing of mineral waste derived from the site subject to this permission and shall not be employed for the processing of material derived from any other source.

9. Oriau Gwaith / Hours of Operation

Ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio mwynau, ni chaniateir unrhyw waith a awdurdodwyd neu sydd yn ofynnol gan y caniatâd hwn, gan gynnwys rhedeg peiriannau, ac eithrio rhwng 07:30 a 18:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac 08:30 ac 13:00 ar ddydd Sadwrn. Ni chaniateir unrhyw waith ar y Sul nac ar Wyliau Cyhoeddus. Ni fydd yr amod hwn yn rhwystro gwneud gwaith stacio a chasglu darnau llechi â llaw, gwaith cynnal a chadw hanfodol ar offer neu beiriannau a ddefnyddir ar y safle nac unrhyw waith i gynnal amodau diogelwch.

MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES



Except with the prior written agreement of the mineral planning authority, no operations authorised or required by this permission, including the operation of plant, shall be carried out other than between the hours of 07.30 to 18.00 Monday to Friday and 08.30 to 13.00 on Saturday. No such operations shall be carried out on Sundays or Bank Holidays. This condition shall not operate so as to prevent the hand-picking and stacking of slate pieces, the carrying out of essential maintenance to the plant and machinery used on the site or the maintenance of safe working conditions.

10. Trafnidiaeth, Priffyrdd & Llwyth / Transport, Highway & Dust

Ac eithrio gyda chaniatâd yr awdurdod cynllunio mwynau ni chaniateir symud mwy na 30,000 tonnall o ddeunydd y flwyddyn o'r safle ar hyd y ffordd a dim mwy na 300 tonnall y diwrnod. Rhaid gofalu y bydd ffigyrau allbwn o'r safle dros unrhyw gyfnod penodol ar gael i'r awdurdod cynllunio mwynau, ar gais, cyn pen un diwrnod ar hugain.

Except with the prior agreement of the mineral planning authority no more than 30,000 tonnes per annum at a maximum rate of 300 tonnes per day shall be removed by road from the site. Figures of the output from the site over any specified period shall be made available to the mineral planning authority within 21 days of request.

11. Rhaid defnyddio'r mynediad cerbydau presennol drwy Chwarel Ddwyrain Ty Mawr drwy gydol oes y datblygiad a ganiateir drwy hyn ac ni chaniateir defnyddio unrhyw fynedfa gerbydau arall i'r safle.

Vehicular access to the site shall be via the existing access to Ty Mawr East Quarry for the duration of the development hereby approved and no other means of vehicular access to the site shall be used.

12. Ni chaniateir unrhyw waith ar y safle fydd yn achosi codi llwyth a rhaid dyfrio pob ardal lle bydd cerbydau olwyn yn teithio arnynt wrth symud defnyddiau, neu eu trin pryd hynnag fydd angen i arbed codi llwyth o'r fath.

No operations on the site shall be undertaken in such a manner as to cause the raising of fugitive dust and all areas traversed by wheeled vehicles or within which the handling or movement of material is undertaken shall be watered or otherwise treated at such times and intervals as may be necessary to prevent the raising of such dust.

13. Rhaid i'r holl gerbydau llwythog sy'n gadael y safle fod wedi'u gorchuddio fel nad oes llwyth yn dianc i'r aer. Ni chaniateir i gerbydau adael y safle mewn cyflwr a fyddai'n gollwng pridd, llwyth a deunyddiau eraill ar y briffordd.

All loaded vehicles leaving the site shall be sheeted to prevent the emission of dust into the atmosphere. Vehicles shall not be permitted to leave the site in such a condition as to deposit mud, dust and other materials onto the highway.

14. Swm; Noise;

Rhwng 07.30 a 18.00 yn ystod dyddiau'r wythnos a rhwng 07.30 a 13.00 ar y Sadwrn, ni ddylai lefel y

**MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES**



sw^n yn agil y datblygiad fod yn uwch na 65 dB Aeq, 1 awr, lefel sw^n cefndir ar gyrion y safle. Ar bob adeg arall ni ddylai lefel y sw^n yn agil y datblygiad fod yn uwch na 40dB L Aeq, 5 munud, lefel sw^n cefndir mewn unrhyw eiddo'n bodoli eisoes sy'n sensitif i sw^n.

Between the hours of 07.30 and 18.00 weekdays and 07.30 and 13.00 Saturdays, the noise level arising from the development shall not exceed 65 dB Aeq, 1 hour, free field at the site boundary. At all other times the noise level arising from the development shall not exceed 40 dB LAeq, 5 minutes, free field at any existing noise sensitive property.

15. Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw i'r awdurdod cynllunio mwynau am unrhyw waith dros dro all fod yn uwch na'r lefelau a nodir yn amod 14. Ni ddylai sw^n o waith dros dro fod yn uwch na 70 dB L Aeq, 1 awr sw^n cefndir a fynegir yn yr un dull ac yn amod 14 mewn unrhyw eiddo sy'n sensitif i sw^n ac ni ddylai barhau am fwy nag 8 wythnos mewn unrhyw gyfnod 12 mis heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol yr awdurdod cynllunio mwynau. Ni ddylid gwneud gwaith dros dro cyn 07.30 ac ar ôl 18.00 o'r gloch ac eithrio mewn argyfwng, a dylid hysbysu'r awdurdod cynllunio mwynau yn ysgrifenedig am yr achosion hyn.

The mineral planning authority shall be notified in writing in advance of any temporary operations which may exceed the levels set out in condition 14. Temporary operations shall not exceed 70 dB LAeq, 1 hr free field expressed in the same manner as in condition 14 at any noise sensitive property, and shall not be carried out for longer than a total of 8 weeks in any 12 month period without the prior written approval of the mineral planning authority. Temporary operations shall not be carried out outside the hours of 07.30 to 18.00 except in cases of emergency, which cases shall be notified in writing to the mineral planning authority.

16. Rhaid cynnal a chadw pob peiriant ac offer fydd yn gweithio ar y safle mewn modd fydd yn cyfyngu ar uchafswm lefelau sw^n i'r rhai a nodir yn manylebau'r gwneuthurwyr. Ni chaniateir defnyddio unrhyw gerbyd gyda larymau sw^n wrth facio'n ol heb ganiatâd blaenorol ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio mwynau.

All vehicles, plant and machinery operated within the site shall be maintained in such a manner as to restrict maximum noise emission levels to those set out in the manufacturer's specification. No vehicles equipped with audible reversing alarms shall be operated on the site without the prior written approval of the mineral planning authority.

17. Ni chaniateir defnyddio peiriannau nac offer yn y safle onid oes arnynt sgriniau, caeadau a thawelyddion i ladd swn.

No plant, machinery or equipment shall be operated at the site unless fitted with appropriate sound deadening screens, casework, enclosures and silencers.

18. Rhaglen waith ac adolygu/Operational programme and review;

Oni chytunir fel arall mewn ysgrifen, ar ben bob blwyddyn o ddyddiad cychwyn gweithredu'r caniatâd cynllunio hwn, rhaid i'r ymgymrwyr gyflwyno i'r awdurdod cynllunio mwynau, er gwybodaeth ac i gael

MAEN BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL.
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES



cymradwyaeth, adolygiad ffurfiol blynyddol o'r gweithgareddau a wneir ar y safle. Bydd pob adolygiad yn ddatganiad ysgrifenedig ac yn cynnwys cynlluniau priodol fydd yn dangos;

- a) manau lle gwnaed gwaith cloddio ac adfer / ôl-ofal ers yr adolygiad diwethaf [neu yn achos yr adolygiad cyntaf, dyddiad gweithredu'r caniatâd cynllunio];
- (b) manau lle bwriedir gwneud gwaith cloddio a gwaith adfer / ôl-ofal yn ystod y flwyddyn i ddod.

Unless otherwise agreed in writing, on each anniversary of the date of implementation of this planning permission, the operator shall submit for the information and approval of the mineral planning authority an annual formal review of operations which are being undertaken at the site. Each review shall be in the form of a written statement and appropriate plans which shall indicate;

- (a) areas in which extractive operations and restoration/aftercare works have taken place since the last review, [or in the case of the first review, the date of implementation of planning permission];
- (b) areas where it is proposed that the extractive operations and the carrying out of restoration/aftercare works will be carried out over the forthcoming year.

19. Gorchymyn Datblygu Cyffredinol/General Development Order;

Er darpariaethau Gorchymyn Doddi' Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, fel y 'i diwygiwyd, ni chaniateir gweithredu dim yn Erthygl 3 neu ail Atodlen y Gorchymyn hwnnw mewn modd fyddai'n caniatáu o fewn yr ardal y rhoddwyd y caniatâd hwn ar ei gyfer unrhyw ddatblygiad a nodir yn Nosbarthau A a B rhan 19 o'r Ail Atodlen i'r Gorchymyn ac ni chaniateir gwneud unrhyw ddatblygiad o'r fath ar unrhyw adeg o fewn yr ardal heb ganiatâd penodol gan yr awdurdod cynllunio lleol.

Notwithstanding the provisions of the Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995, as amended, nothing in Article 3 of, or the second Schedule to, that Order shall operate so as to permit within the area the subject of this permission any development specified in Classes A and B of part 19 of the Second Schedule to the Order and no such development shall be carried out at any time within that area without the express grant of permission by the local planning authority.

20. Adfer/Restoration;

Oni chytunwyd fel arall yn ysgrifenedig rhaid cyflwyno er cymradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau o fewn 12 mis i'r dyddiad yma, cynllun tirlunio manwl gydag atodlen plannu coed a llwyni sydd i'w weithredu wedi hynny yn unol â gofynion amod 21.

Unless otherwise agreed in writing, a detailed landscaping plan and schedule of tree and shrub planting shall be submitted for the approval of the mineral planning authority within 12 months of the date hereof, and shall thereafter be implemented in accordance with the requirements of condition 21.

21. Rhaid adfer y safle'n raddol. O fewn dwy flynedd i ddyddiad y caniatâd hwn neu pe derfydd y gwaith a ganiateir drwy hyn yn barhaol, p'r un bynnag sy'n gynharach, rhaid cychwyn ar y gwaith i adfer y tir i foddhad yr awdurdod cynllunio mwynau. Bydd y gwaith adfer yn cynnwys:

MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES



- (a) Clirio digon o'r deunydd a gloddiwyd i ddatgelu wyneb gwreiddiol y ddacar neu ddarparu unrhyw swbstrad gweddilliol ar gyfer gwaith adfer a;
- (b) thrin yr wyneb a gliriwyd mewn modd i sicrhau bod llystyfiant naturiol sy'n nodweddiadol o rywogaethau'r ardal yn ailsefydlu yno,
- (c) plannu coed a llwyni sydd yn nodweddiadol o'r ardal gyfagos i foddhad yr awdurdod cynllunio mwynau,
- (d) creu cynefin ar gyfer ystlumod.

The site shall be progressively restored. Within two years of the date of this permission or permanent cessation of operations hereby approved, whichever the sooner, restoration works shall commence in order to reinstate the site to the satisfaction of the mineral planning authority. Restoration shall include:

- (a) the removal of sufficient deposited material substantially to expose the original ground surface, or preparation of any residual substrate for restoration works, and;
- (b) the treatment of the exposed surface in a manner to secure effective re-establishment of natural vegetation of a type and species typical of the surrounding area,
- (c) the planting of trees and shrubs typical of the surrounding area to the satisfaction of the mineral planning authority,
- (d) the creation of a habitat for bats.

22. Dylai holl llystyfiant, swbstrad a'r haenau organig wedi'i stripio a'i storio gael ei ddefnyddio mewn gwaith adfer ac ni ddylid symud fath ddeunyddiau oddi ar y safle heb ganiatâd blaenorol ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio mwynau.

All vegetation, substrate and organic layers stripped and stored shall be employed in works of restoration and no such materials shall be removed from the site without the prior written permission of the local planning authority.

23. Bioamrywiaeth ac Ecolleg / Biodiversity and Ecology

Rhaid cadw oll dwneli a thramwyfeydd tanddearol yn agored, neu diogelu a'u cynnal mewn modd i ganiatau mynediad i ystlumod ar bob adeg.

All tunnels and underground passages on the permitted site shall be left open, or secured and maintained in such a manner as to secure access at all times for bats.

24. O fewn ardaloedd A4, C1, C2 & D1 dynodir ar gynllun y cais rhif 'TMW6', ni symudir unrhyw goed neu llwyni rhwng 1af Ebrill a 31ain Awst oni fo'n bosib cadarnhau nad oes adar nythu'n bresennol ac oni chytunwyd fel arall mewn ysgrifen gyda'r awdurdod cynllunio mwynau.

Within areas A4, C1, C2 & D1 indicated on the application plan No. 'TMW6', no shrubs or trees shall be removed between 1st April and 31st August unless it can be confirmed that no nesting birds are present and unless otherwise agreed in writing with the mineral planning authority.

25. Archaeology / Archeoleg

MAEN BWYSIG EICH BOD YN DARILEN Y NODIADAU ATODOL
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES



Ni chaniateir i unrhyw ddatblygiad ganiatau neu achosi i ganiatau unrhyw niwed neu ddirywiad i nodweddion archeolegol rifwyd B1, B2, B3, B4, B5, B6, B7, B8, B9, B10, B11, B12, B13, B14 & B15 a ddangoswyd ar y cynllun diwygiedig derbyniwyd ar 17eg Mawrth 2009 (Archaeological features unaffected by the proposed development) ac ni chaniateir i unrhyw weithrediadau o fewn dau fetr i fath nodweddion heb ganiatad ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio mwynau.

No development shall permit or cause to permit any damage or deterioration of archaeological features numbered B1, B2, B3, B4, B5, B6, B7, B8, B9, B10, B11, B12, B13, B14 & B15 identified on the amended plan received on the 17th March 2009 (Archaeological features unaffected by the proposed development), and no operations shall take place within two metres of such features without the prior written consent of the mineral planning authority

26. Ni ddylai unrhyw ddatblygu ddigwydd ar neu yng nghyffiniau nodweddion A1, A2, A3, A4, A5, A6, A7, C1, C2, C4, C5, C6, C7, C8, C9, C10, C11 & C12 y dangoswyd ar y cynllun diwygiedig derbyniwyd ar 17eg Mawrth 2009 (Archaeological features affected by the proposed development) a'r 'Arolwg Archaeological dyddiedig, 'Rhagfyr 2008', cyn i'r nodwedd dan sylw fod wedi eu cofnodi ar y lefel a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw er boddhad yr awdurdod cynllunio mwynau.

Development shall not take place on or in the vicinity of features A1, A2, A3, A4, A5, A6, A7, C1, C2, C4, C5, C6, C7, C8, C9, C10, C11 & C12 identified on the amended plan received on the 17th March 2009 (Archaeological features affected by the proposed development), and Archaeological Survey dated December 2008, before the relevant feature has been recorded at the level indicated in that report to the satisfaction of the mineral planning authority.

Y rhesymau am ddyfarniad y Cyngor i ganiatau y datblygiad yn ddarostyngedig i'r amodau a nodwyd eisoes ydyw:

The reasons for the Council's decision to grant permission for the development subject to compliance with the conditions specified are:

1. Sicrhau bod y safle'n datblygu'n gywir
To secure the proper development of the site
2. Sicrhau bod y safle'n datblygu'n gywir
To secure the proper development of the site
3. Sicrhau bod y safle'n datblygu'n gywir ac er lles mwyndernu'r ardal
To secure the proper development of the site and in the interests of the amenities of the area
4. Sicrhau bod y safle'n datblygu'n gywir
To secure the proper development of the site

MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARILEN Y NODIADAU ATODOL.
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES



5. Er lles mwynder yr ardal
In the interests of the amenity of the area
6. Er lles mwynder yr ardal
In the interests of the amenity of the area
7. Sicrhau bod y safle'n datblygu'n gywir
To secure the proper development of the site
8. Sicrhau bod y safle'n datblygu'n gywir
To secure the proper development of the site
9. Er lles mwynder trigolion lleol
In the interests of the amenity of local residents
10. Er lles diogelwch ar y briffordd a mwynder trigolion lleol
In the interests of highway safety and the amenity of local residents
11. Er lles diogelwch ar y briffordd
In the interests of highway safety
12. Er lles diogelwch ar y briffordd
In the interests of highway safety
13. Er lles diogelwch ar y briffordd
In the interests of highway safety
14. Er lles mwynder trigolion lleol
In the interests of the amenity of local residents
15. Er lles mwynder trigolion lleol

MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL.
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES



In the interests of the amenity of local residents

16. Er lles mwynder trigolion lleol

In the interests of the amenity of local residents

17. Er lles mwynder trigolion lleol

In the interests of the amenity of local residents

18. Sicrhau bod y safle'n datblygu'n gywir

To secure the proper development of the site

19. I sicrhau datblygiad priodol y safle ac er budd mwynderau gweledol yr ardal

To secure the proper development of the site and in the interests of the visual amenities of the area

20. Sicrhau bod y safle'n cael ei adfer yn gywir ac er lles mwynderau gweledol yr ardal

To secure the proper restoration of the site and in the interests of the visual amenities of the area

21. Sicrhau bod y safle'n cael ei adfer yn gywir ac er lles bioamrywiaeth yr ardal

To secure the proper restoration of the site and in the interests of the biodiversity of the area

22. Sicrhau bod y safle'n cael ei adfer yn gywir ac er lles bioamrywiaeth yr ardal

To secure the proper restoration of the site and in the interests of the biodiversity of the area

23. Er lles bioamrywiaeth yr ardal

In the interests of the biodiversity of the area

24. Er lles bioamrywiaeth yr ardal

In the interests of the biodiversity of the area

25. I warchod a chofnodi'r dreftadaeth archeolegol ddiwydiannol.

To protect and record the industrial archaeological heritage

26. I warchod a chofnodi'r dreftadaeth archeolegol ddiwydiannol.

To protect and record the industrial archaeological heritage

Wrth ystyried y cais yma roedd yr Awdurdod Cynllunio Mwynau o'r farn bod y polisiau a rhestrir isod yn berthnasol:

MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES



- Polisiau DD6, DD7, DD10 o Gynllun Fframwaith Gwynedd,
- Polisiau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol Polisi Cynllunio Mwynau (Rhag 2000) Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
- Polisiau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol Polisi Cynllunio Cymru (Mawrth 2002) Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
- Polisiau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 1: AGGREGAU (Mawrth 2004) Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
- Polisi GP1, GP3, GP6, GP8, GP10, SA1 Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Mwynau Cyngor Gwynedd,
- Polisi C7, C12, C14 fersiwn Ddrafft Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd,
- Polisi 9E Cynllun Lleol Arfon Wledig

The Mineral Planning Authority is of the opinion that the policies listed below were relevant in the consideration of this application:

- Policy DD6, DD7, DD10 of the Gwynedd Structure Plan,
- Policies, guidance and general principles set out in the Welsh Assembly Government Minerals Planning Policy (Dec 2000),
- Policies, guidance and general principles set out in the Welsh Assembly Government Planning Policy Wales (March 2002),
- Policies, guidance and general principles set out in the Welsh Assembly Government Minerals Technical Advice Note (Wales) 1: AGGREGATES (March 2004),
- Policy GP1, GP3, GP6, GP8, GP10, SA1 Gwynedd Council Supplementary Minerals Planning Guidance,
- Policy C7, C12, C14 of the Draft Gwynedd Unitary Development Plan,
- Policy 9E Rural Arfon Local Plan

Nodyn i'r Ymgeisydd / Note to Applicant

Byddwchystal â nodi'r ymatebion i ymgynghoriad ynghlwm derbyniwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Dwr Cymru a dylid eu cysylltu'n uniongyrchol ran rheolaethau amgylcheddol a gweithredol penodol a darpariaeth gwasanaeth o fewn eu hawdurdod.

Please note the attached consultation responses received from the Environment Agency and Welsh Water who should be contacted direct in respect of the specific environmental and operational controls and the provision of utility within their remit.

MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES